# Ysgol Sant Curig - Llawlyfr

## Cynnwys

*Croeso (1)*
*Ble mae Ysgol Sant Curig? (2)*
*Arwyddair yr Ysgol (2)*
*Y Gymraeg yn yr Ysgol (3)*
*Gwisg Ysgol (4)*
*Y Cwricwlwm (4)*
*Cynnal disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu SENCO Ychwanegol (5)*
*Eisteddfod Ysgol (6)*
*Gwersi Offerynnol (6)*
*Gweithgareddau Chwaraeon (6)*
*Gwaith Cartref (7)*
*Ymweliadau Addysgiadol (7)*
*Gweithgareddau Ar ôl Ysgol (8)*
*Cyngor Ysgol (9)*
*Y Drefn Achwyno (9)*
*Addysg Grefyddol (10)*
*Addysg Rhyw (10)*
*Addysg Uwchradd (11)*
*Derbyn Plant (11)*
*Presenoldeb (12)*
*Cyfleoedd Cyfartal ac Anabledd (12)*
*Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon (13)*

## Croeso

Mae dewis ysgol i'ch plentyn yn holl bwysig.

Mae rhieni am i'w plant dderbyn addysg dda mewn awyrgylch hapus a diogel. Rwy'n hyderus gallwn gynnig pob un o'r pethau hyn i'ch plentyn. Rydym yn ymfalchio yn yr addysg eang, gytbwys a llawn a ddarparwn drwy'r ysgol. Ac yn yr un modd, rydym hefyd yn ymfalchio yn yr awyrgylch gyfeillgar a gofalgar sydd bob amser i'w weld.

Mae llawer o ymwelwyr i'r ysgol yn sôn am y croeso cynnes y maent yn ei gael a chwrteisi ac aeddfedrwydd ein disgyblion. Rydym yn gwerthfawrogi pob disgybl ac yn credu y dylai eu hamser yn yr Ysgol fod yn werthfawr ac yn foddhaus. Petaech yn dewis danfon eich plentyn i Ysgol Sant Curig, rwyf yn gwbl hyderus y byddwch wedi gwneud y penderfyniad cywir. Dewch am dro i weld yr ysgol; cewch groeso cynnes iawn. Edrychaf ymlaen at gwrdd â chi cyn bo hir ac os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, cofiwch gysylltu â mi unrhyw bryd yn yr ysgol.



**Ble mae Ysgol Sant Curig?**

Saif Ysgol Sant Curig mewn llecyn bendigedig a chanddi olygfa ardderchog ar hyd Môr yr Hafren yng nghanol tre'r Barri.

Mae gennym gymysgedd o feysydd gwyrdd a lleiniau caled sydd yn cyfrannu
at y profiadau gwych mae'r disgyblion yn eu derbyn. Mae'r prif faes gwyrdd yn le ardderchog i blant chwarae'n rhydd yn ogystal â lle i gynnal gwersi rygbi, pêl-droed, criced a mwy.

Defnyddir y maes caled ar gyfer nifer o weithgareddau megis gwersi hoci, pêl rwyd yn ogystal â sesiynau drama awyr agored. Mae gan ein plant bach (3 i 5 oed) eu meysydd dysgu awyr agored hwy eu hunain. Defnyddir y meysydd hyn ar gyfer eu gwersi yn ogystal â rhoi cyfle i'n plant bach ddefnyddio'u dychymyg yn ystod sesiynau chwarae rhydd.

Mae gan yr ysgol erddi lle cynhelir clwb garddio'r ysgol. Mae hyn yn rhoi cyfle i'n plant dyfu blodau a llysiau a llunio ardaloedd deniadol ar gyfer eu gwersi awyr agored.



**Arwyddair yr Ysgol**

***'Tyfwn ar ein Taith'***

Credwn yn gryf mewn darparu addysg o'r answadd orau I'n holl ddisgyblion I'w helpu I ddod yn ddysgwtr gydol oes llwyddiannus.

Rhown gyfle i bawb;

I lwyddo mewn awyrgylch hapus a diogel
I wireddu'r freuddwyd o Gymry dwyieithog.

Cydnabyddir ein plant am fod yn gwrtais ac yn garedig tuag at ei gilydd ac am eu 'ymddygiad ardderchog' (Adroddiad Estyn 2008)

Mae hyn yn deillio o’r ffaith eu bod yn derbyn yr un cwrteisi, cariad a pharch gan eu hathrawon. Mae gan ein plant bob hawl i ddisgwyl hyn o rieni ac athrawon. Lluniwyd y testun uchod gan ddisgyblion 2007/2008 ar gyfer pob disgybl sy’n mynychu Ysgol Sant Curig. Anogwn ein disgyblion i fod yn gyfeillgar a gofalgar tuag at ei gilydd a chredwn fod cydweithio rhwng yr ysgol a’r cartref yn holl bwysig. Ystyriwn ein hysgol yn ‘Ysgol Iach’. Rydym yn falch o fod wedi derbyn tlws Rhwydwaith Ysgolion Iach Bro Morgannwg dros y tair blynedd diwethaf. I gyrraedd hyn, ffurfiwyd cyngor ysgol, a gwellwyd profiadau hamdden plant drwy wella adnoddau chwarae maes yr ysgol. Pwysleisiwn fwyta’n iach a chadw’n heini, a chynghorwn blant i yfed dŵr yn ystod gwersi a chynigir ffrwyth a llaeth iddynt yn ystod y dydd.




**<u>Y Gymraeg yn yr Ysgol</u>**

Prif nod ieithyddol yr Ysgol yw sicrhau bod y disgyblion yn cael

- Cyfle i ddysgu i siarad Cymraeg
- Datblygu y gallu i gyfathrebu’n effeithiol yn y ddwy iaith.

Cymraeg yw prif iaith yr ysgol. Defnyddiwn y Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Datblygwn yn ein plant falchder tuag at yr iaith a mwynhad o’i ddefnyddio ymhob rhan o’u bywydau. Magwn ymwybyddiaeth a pharch at Gymreictod a threftadaeth drwy gynnal eisteddfodau yn yr ysgol, a chystadlu mewn Eisteddfodau lleol a chenedlaethol, gwersylla yn Llangrannog; yn ogystal â’u cyflwyno i’r cyfoeth o storïau chwedlau a barddoniaeth sydd yn rhan o’u hetifeddiaeth.

Rhoddir pwyslais ar hanes Cymru, celf a chwedloniaeth o Gymru wrth ddysgu am ddiwylliannau eraill.



**Gwisg Ysgol**

Diolchwn i'n rhieni am eu hymdrechion dros y blynyddoedd i sicrhau bod diwyg gwisg ein disgyblion o'r safon uchaf. Anogir pob disgybl i wisgo'r wisg Ysgol lawn yn ddyddiol o'r cychwyn cyntaf ac mae hyn yn ychwanegu at y teimlad o fod yn perthyn i'r ysgol ac o fod yn rhan bwysig ohoni.

Mae'r wisg yn cynnwys:-
- Crys Chwys/Cardigan ysgol
- Crys siec yr ysgol /crys polo gwyn
- Trowsus / sgert / pinafore llwyd
- Sgidiau du

Cysylltwch â swyddfa'r ysgol am fanylion pellach.

**Y Cwricwlwm**

Caiff y Cwricwlwm Cenedlaethol ei addysgu'n llawn i bob disgybl yn ein hysgol.

Mae'r meysydd yn cynnwys Cymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg (CA2) Cerddoriaeth, Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, Celf, Technoleg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ac Addysg Gorfforol. Rydym yn adolygu cynnwys y cwricwlwm yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn derbyn yr addysg orau posib.

DYSGU DRWY CHWARAE (Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed)
Yn ystod y cyfnod hwn bydd ein disgyblion yn datblygu sgiliau cymdeithasol ac yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol, hyderus a chwim eu meddwl mewn awyrgylch cyffrous. Rydym yn defnyddio meysydd ardderchog ein hysgol mor aml â phosib ar gyfer pob math o weithgaredd.




<u>**Cynnal disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu SENCO Ychwanegol**</u>

Mae eich plentyn yn unigolyn, ac felly mae ganddo anghenion unigol. Ar brydiau, yn ystod ei yrfa ysgol, gall fod angen cefnogaeth ychwanegol ar eich plentyn, boed yn addysgol, gymdeithasol, ymddygiadol, emosiynol neu'n gorfforol. Mae gan Ysgol Sant Curig athro cydlynu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) llawn amser, sydd yn cydlynu holl anghenion ychwanegol ein disgyblion. Mae hyn yn golygu bod eich plentyn yn cael cymorth mewn gwersi, neu pan fo angen, caiff ei addysgu tu hwnt i'r dosbarth. Os bydd gan eich plentyn angen ychwanegol, byddwn yn eich gwahodd i'r ysgol i drafod y ffordd orau o'i gefnogi gyda'r athro dosbarth a'r SENCO a sut y gallwch chi ei helpu adref hefyd. Mae croeso i rieni ddod i ymweld â'r ysgol ar unrhyw adeg i drafod anghenion eu plant. Felly peidiwch aˆ phoeni adref, dewch mewn i drafod gyda ni, dim ots pa mor fawr neu fach yw'r broblem.

Ein nod yw
• Sicrhau mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys i bob disgybl.
• Darparu gwaith sydd yn addas i allu eich plentyn
• Gwneud ein gorau i adnabod anghenion eich plentyn cyn gynted â phosib yn ei yrfa ysgol.
• Sicrhau bod pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cyfle i chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau'r ysgol.
• Ystyriwn fod rhieni yn bartneriaid llawn yn addysg eu plant ac rydym yn cynnal nifer o gyfleoedd i sicrhau bod rhieni a disgyblion yn derbyn gwybodaeth lawn a chyson am ddatblygiad a chyrhaeddiad plentyn.
• Rydym yn cydnabod y bydd gan nifer o ddisgyblion anghenion arbennig rhyw dro yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Wrth weithredu'r polisi yma, credwn y caiff disgyblion gymorth i oresgyn eu hanawsterau.

Ceir manylion pellach ynglŷn â dysgu'r ysgol. Croeso i chi ddarllen y ddogfen yn yr ysgol.

**Eisteddfod Ysgol**

Mae’r Eisteddfodau yn gyfrwng i adeiladu hyder ymhlith ein plant a’u galluogi i fynegi eu doniau cerddorol, celfyddydol, ysgrifenedig a llafar drwy gyfrwng y Gymraeg.




**Gwersi Offerynnol**

Rydym yn awyddus iawn i bob plentyn gael y cyfle i ddysgu offeryn cerddorol ac yn annog hyn.

Cynigir gwersi offerynnol i bob disgybl yng nghyfnod allweddol 2. Mae gan ddisgyblion dewis o amrywiaeth eang o offerynnau. Y delyn, Ffidil, Soddgrwth, Clarinet, Ffliwt, Allweddellau a Gitâr.

Caiff ein disgyblion y cyfle i ddefnyddio’r hyn a ddysgwyd yn ystod eu gwersi cerddorol yn gyhoeddus e.e. gwasanaethau dosbarth, ysgol, cyngherddau ysgol drwy gydol y flwyddyn, gwasanaethau Nadolig a Gŵyl Dewi, ac Eisteddfodau.

**Gweithgareddau Chwaraeon**

Ystyriwn fod ymarfer corff yn bwysig iawn i ddatblygiad lles cyffredinol ein plant.

Fel Ysgol Iach, rydym yn annog ein disgyblion i fwyta’n iach a chadw’n heini. Mae gan ein hysgol dir ardderchog sydd yn ein galluogi i gynnal gweithgareddau chwaraeon o bob math drwy gydol y flwyddyn ar ein maes mawr a chwrt caled. Dros y blynyddoedd mae nifer o dimoedd yr ysgol wedi cystadlu ac ennill mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol.

Mae unrhyw blentyn sy’n cymryd rhan yn cynrychioli’r ysgol, a chydnabyddir hyn fel braint sy’n gyfartal â chyflawniad academaidd neu artistig.

Mae hefyd yn meithrin ysbryd cyd-dynnu ac yn datblygu sgiliau. Anelwn at roi cyfle i blant o bob gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cystadleuol. Mewn addysg gorfforol disgwylir i'r plant wisgo trowsus byr du, crys-t gwyn, ac esgidiau ymarfer.

Caiff disgyblion wersi nofio yng nghyfnod allweddol 2.



**Gwaith Cartref**

Gosodwn waith cartef er mwyn atgyfnerthu sgil a ddysgwyd yn y dosbarth. Rydym yn ystyried bod gwaith cartef yn gyfle da i blant rannu eu profiadau dysgu gyda'u rhieni.

Mae'n bwysig i rieni drafod gyda'u plant wrth fynd ati i wneud eu gwaith cartref. Ceisiwch ddarllen am ychydig gyda'ch plentyn yn ddyddiol. Mae pum munud yn ddigon. Os oes gyda chi unrhyw ofid
bydd athro neu athrawes eich plentyn yn barod iawn i'w drafod.

**Ymweliadau Addysgiadol**

Er mwyn cyfoethogi addysg ein disgyblion, trefnir nifer o ymweliadau, er enghraifft, amgueddfeydd Llundain, Y Pwll Mawr ym Mlaenafon, Gwersylla yn Llangrannog ynghyd ag amrywiaeth o ymweliadau lleol.

Rydym yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at gostau'r ymweliadau. Mae modd trafod unrhyw anhawster yn gyfrinachol gyda'r pennaeth. Ein nod yw cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl.




**Gweithgareddau Ar ôl Ysgol**

Cynigir llu o weithgareddau cyffrous ac amrywiol am ddim i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 (7 i 11 oed), wedi ysgol o 3:30yp – 4:30yp. Gall plant ymuno yn y gweithgareddau canlynol yn unol â'r amserlen:

- Cyfrifiaduron
- Celf
- Yr Urdd
- Pêl-Droed
- Rygbi
- Pêl Rwyd
- Garddio
- Dawnsio
- Gymnasteg
- Traws Glwad
- Criced
- Hoci
- Golff

Mae nifer mawr o aelodau staff yr Ysgol ynghyd ag ambell riant yn rhoi o'u hamser hwy eu hunain i gynnal y gweithgareddau yma. Trefnir amserlen ar gyfer y gweithgareddau yn dymhorol.



**Cyngor Ysgol**

Etholir aelodau o blith ein disgyblion i fod yn rhan o Gyngor yr ysgol. Cynhelir cyfarfodydd cyson o dan arweiniad athro lle y trafodir materion sydd o bwys i holl blant yr ysgol.

Dyma gyfle ardderchog i'n disgyblion lleisio barn er mwyn llunio'r ysgol y maen nhw'n ei ddyheu a gwireddu eu hamcanion. Wrth fynegi barn caiff plant gyfle hefyd i ddatblygu doniau llefaru a hunan hyder.

**Y Drefn Achwyno**

Yn unol â gofynion adran a Deddf Addysg 1996, mae'r AALL wedi sefydlu trefniadaeth ar gyfer delio ag achwynion am gwricwlwm yr ysgol.

Gellir cael copïau o'r dogfennau hyn drwy ysgrifennu at y Pennaeth neu'r Cyfarwyddwr Addysg. Awgrymir y dylid dechrau'r broses o ddatrys problemau trwy ddilyn trefniadau achwynion yr ysgol. Gwneir pob ymdrech i ddatrys problemau yn anffurfiol cyhyd ag y bo modd.

Y camau achwyno
- Athro dosbarth
- Pennaeth
- Cadeirydd y Llywodraethwyr
- AALL

**Addysg Grefyddol**

Rydym yn anelu at ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth a chrefyddau eraill y byd. Bydd ymwelwyr o enwadau a chrefyddau gwahanol yn dod i’r ysgol yn aml a bydd disgyblion hefyd yn ymweld â llefydd fel mosgiau, synagogau, eglwysi a chapeli.

Rydym yn cynnal gwasanaeth crefyddol ar ddechrau bob dydd. Os nad ydych yn dymuno i’ch plentyn/plant fynychu’r gwasanaethau, mae modd trafod hyn gyda’r pennaeth.



**Addysg Rhyw**

Mae rhaglen addysg rhyw'r ysgol, y cytunwyd arni gan y corff Llywodraethol, yn gysylltiedig â meysydd o’r Cwricwlwm Cenedlaethol. Y prif bwyslais yw cyd berthnasau a bydd hyn yn adlewyrchu anghenion y disgyblion wrth iddyn nhw ddatblygu yn ystod y camau allweddol.

Mae’n bosibl i rieni weld y polisi a thrafod y deunyddiau addysgu a ddefnyddir. Mae gan rieni'r hawl i dynnu eu plant o addysg ryw pe dymunent.



**Addysg Uwchradd**

Ar ddiwedd eu cyfnod yn Ysgol Sant Curig (Blwyddyn 6) bydd eich plentyn yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.

Mae Ysgol Sant Curig yn ysgol bartner gydag Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ac
oherwydd hyn, mae'n meddu ar gysylltiadau cryf sydd yn sicrhau bydd y profiad o drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd yn un hapus i'r disgyblion a'r rhieni.

Mae perthynas agos rhwng y ddwy Ysgol ac rydym yn cydweithio'n dda. Yn aml, bydd disgyblion hyˆn o Ysgol Bro Morgannwg yn ymddwyn fel mentoriaid a phatrymau ymddwyn ar gyfer plant yr ysgol gynradd, gan eu helpu gyda'u gweithgareddau ar ôl ysgol fel y clwb garddio ac ar gyrsiau preswyl yn Llangrannog.

Un fantais o gael perthynas mor agos gyda'r ysgol ardderchog hon yw bod anghenion pob plentyn yn cael eu trafod yn llawn gyda thiwtor blwyddyn 7 Ysgol Bro Morgannwg. Yn dilyn hyn, gwneir paratoadau o flaen llaw er mwyn sicrhau'r trosglwyddiad mwyaf esmwyth posib ar gyfer eich plentyn.

Er mwyn cael gwybod mwy ynglŷn â'r ysgol lle bydd eich plentyn yn mynychu, teimlwch yn rhydd i gysylltu â Mr Hywel Price, Pennaeth Ysgol Bro Morgannwg ar 01446 450280 i drefnu ymweliad.

**Derbyn Plant**

Caiff plant tair oed a throsodd ac sy'n byw o fewn dalgylch yr Ysgol, eu derbyn i'n dosbarth meithrin y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Mae plant yn dechrau'r ysgol mewn grwpiau bach. Cynhelir boreau a phrynhawniau coffi i groesawi rieni newydd ynghyd â rhieni presennol.

Rydym yn cadw rhestr aros o blant ac rydym yn annog rhieni i gofrestru cyn gynted â phosib. Ceir ffurflenni cais am le yn uniongyrchol o'r ysgol. Mae croeso cynnes i ddarpar rieni ymweld â'r ysgol cyn gwneud penderfyniad. Cysylltwch â swyddfa'r ysgol ar 01446 744222 i drefnu hyn.



**Presenoldeb**

Dim ond trwy fynychu’r ysgol yn gyson y gall eich plentyn wneud cynnydd cyson yn ei waith. Ceisiwch gysylltu â’r Ysgol cyn gynted â phosib os na fydd eich plentyn yn bresennol.

Mae diwrnod ysgol yn dechrau am bum munud i naw (ac eithrio’r meithrin sydd yn dechrau am 9:00) ac rydym yn annog pob disgybl i fod yn bresennol erbyn hyn.

Rhown bwyslais mawr ar brydlondeb er mwyn rhoi pob chwarae teg i’ch plentyn ac i osgoi unrhyw anawsterau a gofid a ddaw yn sgil cyrraedd yn hwyr. Rydym yn monitro presenoldeb holl ddisgyblion yr ysgol yn gyson ac yn gweithredu’n unol â pholisi presenoldeb yr Awdurdod Addysg Lleol.



**Cyfleoedd Cyfartal ac Anabledd**

Rydym ni o’r farn fod pob plentyn yn arbennig ac rydym yn awyddus i dalu sylw at anghenion pob disgybl unigol er mwyn sicrhau y caiff gyfle cyfartal i fwynhau a llwyddo o fewn yr ysgol.

Perchir gwahaniaethau o bob math gan gynnwys rhai personol, corfforol, crefyddol, ethnig a diwylliannol. Gwerthfawrogwn a hyrwyddwn y cyfoeth a ddaw o gyflwyno’r cefndiroedd amrywiol yma i’r ysgol. Mae gan bob plentyn felly, yr hawl i dderbyn mynediad i gwricwlwm llawn ac fe adlewyrchir hyn yn ein polisi cyfle cyfartal i bawb. Mae ein llywodraethwyr yn ymwybodol o’u rhwymedigaethau wrth weithredu polisïau cyfle cyfartal.

Mae gwaith adeiladu o fewn ac o gwmpas yr ysgol wedi sicrhau bod yna ddarpariaeth briodol ar gyfer disgyblion ag anableddau. Yn unol â’n hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal nid ydym am i ddisgyblion ddioddef anfantais oherwydd eu hanableddau a byddwn yn monitro hyn yn rheolaidd. Cedwir y Polisi cyfleoedd cyfartal yn swyddfa’r Pennaeth. Mae’n bosib i rieni ddarllen y polisi os dymunir.

DIOGELWCH

Ystyriwn ddiogelwch ein disgyblion yn hanfodol bwysig. Er mwyn sicrhau'r safonau diogelwch uchaf -

1. Gweithredwn bolisi iechyd a diogelwch yr AALL.
2. Asesir diogelwch ein safle yn ddyddiol gan ein gofalwr sydd yn byw ar y safle.
3. Ni chaniateir trafnidiaeth heb ganiatâd ar y safle.
4. Gweithredir system cylch cyfyng yn ogystal â mynedfeydd diogel.
5. Ni chaniateir i ddisgyblion adael safle'r ysgol oni bai bod rhieni wedi gwneud trefniadau o flaen llaw.
6. Rydym yn annog rhieni i ddod i gwrdd â'u plant ar dir yr ysgol ar ddiwedd y dydd.



**<u>Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon</u>**

Mae pob rhiant yn aelod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Mae gan ein hysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon cefnogol, bywiog a gweithgar. Croesewir pob rhiant i bob cyfarfod a drefnir.

Trefnir amrywiaeth o ddigwyddiadau fel ffeiriau haf a Nadolig, cyngherddau, nosweithiau cymdeithasol a chwis, disgos i'r plant; a defnyddir yr arian a godir i brynu adnoddau ychwanegol fydd yn cefnogi'r cwricwlwm ac o fudd i bob disgybl yn yr ysgol.

Yn ogystal â hyn, mae'r gymdeithas yn gyfle da i bawb ddod i adnabod ei gilydd mewn awyrgylch gymdeithasol.

Mae croeso i bawb ymuno yn y digwyddiadau.